Pecyn Mathemateg Teulu

# Gweithgareddau Mathemateg i'r Teulu

## Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

National Numeracy
Getting on with numbers

Ariannwyd y gwaith o gyfieithu a dylunio'r adnodd hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (Prosiect Lluosi).
Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

# Sut y teimlwn am fathemateg

## Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Pecyn Mathemateg Teulu

Sut bynnag y teimlwch am fathemateg, nid chi yw'r unig un.

Mae rhai rhieni a gofalwyr yn ceisio osgoi mathemateg yn eu bywydau pob dydd. I rai, mae'r syniad o helpu eu plant gyda gwaith cartref mathemateg yn eu dychryn. Mae oedolion yn aml yn ofni, cynhyrfu neu'n poeni am rifau.

Os teimlwch fel hyn am fathemateg, nid yw'n anghyffredin. Gallwch dal gefnogi eich plant i ddysgu mathemateg – ond bydd efallai'n teimlo'n fwy cyffyrddus os gallwch oresgyn eich ofnau. Ac mae'n bosib goresgyn y teimladau hyn.

## Pam ei bod yn gyffredin gorbryderu am fathemateg?

Mae llawer o resymau pam fod pobl yn gorbryderu am fathemateg:

- Profiadau gwael yn yr ysgol
- Teimlo dan bwysau
- Ofn methu
- Rhywun yn dweud wrthych nad ydych yn berson mathemateg
- Diffyg cefnogaeth

Mae'r rhesymau hyn allan o'n rheolaeth yn aml a ddim yn adlewyrchu ein galluoedd.

Os teimlwch yn orbryderus am fathemateg, nid yw'n golygu na allwch ddysgu.

## Cyngor ar sut i deimlo'n wahanol am fathemateg

- **Siarad am sut y teimlwch am fathemateg.** Yn aml iawn gall dod o hyd i rywun cefnogol i siarad am eich pryderon helpu i oresgyn sut y teimlwch. Gallech ddarganfod bod llawer yn teimlo'r un fath. Ond dylech gael y sgyrsiau hyn allan o glyw eich plant a cheisio bod yn gadarnhaol gyda nhw am fathemateg bob amser.
- **Herio eich credoau eich hun.** Meddyliwch pam nad ydych yn teimlo'n dda am fathemateg. Ydy'r rhesymau hynny'n deg? Er enghraifft, ydy cael trafferth gyda mathemateg yn yr ysgol yn golygu y byddwch o hyd yn wael yn ei wneud?
- **Ceisio peidio cymharu eich hun ag eraill.** Efallai eich bod yn cael mathemateg yn anoddach na rhai neu'n teimlo bod gan rai sgiliau mathemateg gwell na chi. Nid cwestiwn o fod yn well na phobl eraill yw dysgu ond am wella eich sgiliau a'ch hyder.
- **Lleihau pwysau.** Nid oes angen i chi ruthro na dangos i bawb arall beth yr ydych yn ei wneud. Gall y ffaith bod pobl eraill yn gwybod ein bod yn cael trafferth achosi panig weithiau. Mae'n iawn dysgu yn eich amser eich hun – nid ras yw mathemateg! Gallwch ddysgu heb bwysau drwy ddefnyddio adnoddau fel yr Her Rhifedd Genedlaethol.
- **Gosod amcanion realistig.** Peidiwch â disgwyl i chi droi'n athro mathemateg dros nos. Gall ychydig bach o ddysgu rheolaidd eich helpu i wella yn eich amser eich hun.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Tynnu sylw at fathemateg yn y byd go iawn

## Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Pecyn Mathemateg Teulu

## Cyfeirio at fathemateg yn y byd go iawn

**Gwybodaeth i rieni a gofalwyr**

Rydym i gyd yn defnyddio rhifau pob dydd, p'un ai y meddyliwn am y peth neu beidio. Nid dim ond i'r ystafell ddosbarth y mae o. Mae cyfeirio at fathemateg yn y byd go iawn yn helpu plant i ddeall hyn. Mae'n eu helpu i ddeall pam ei fod yn ddefnyddiol. Ac yn rhywbeth y gallwch chi ei wneud i gefnogi addysg fathemateg eich plant y tu allan i'r ysgol. Mae llawer o ffyrdd o gyflwyno sgiliau rhif i'r pethau a wnewch gyda'ch plentyn yn barod.

## Ar gyfer plant iau

Mae llawer o lefydd y gallwch ddod o hyd i fathemateg mewn bywyd pob dydd, dyma rai.

### O gwmpas y tŷ

**Coginio:** gallwch wneud rysetiau, mesur cynhwysion a gosod yr amserydd gyda'ch gilydd.

**Amser:** siaradwch am ba mor hir y mae'n ei gymryd i gyrraedd yr ysgol, faint o'r gloch sydd angen cyrraedd a gadael y tŷ.

**Maint a siâp:** defnyddiwch blastisin neu frics adeiladu i greu gwahanol siapiau a'u trefnu yn ôl maint.

**Yn y papur newydd:** chwiliwch am ddefnydd o rifau mewn erthyglau newyddion, rhagolygon tywydd, hysbysebion swyddi. Siaradwch am sut y defnyddir rhifau wrth siarad am arian, canrannau, tebygolrwydd, graffiau a siartiau.

### O gwmpas y lle

**Helfa rifau:** dowch o hyd i gymaint o rifau â phosib ar arwyddion, mewn siopau, ar ddrysau neu fysus, ayyb.

**Cyfrif:** cyfrwch y pethau y gallwch eu gweld – faint o bobl sydd yn y ciw? Faint o geir coch allwch chi eu gweld?

**Cynllunio siwrne:** siaradwch am bellter, amser a chyfarwyddiadau.

**Amcangyfrif:** siaradwch am yr ardal leol gan amcangyfrif faint o dai sydd ar y stryd, faint o bobl sy'n byw yn y dref neu ba mor bell i ffwrdd yw'r dref agosaf.

### Gemâu

**Gemâu cardiau:** mae llawer o gemâu cardiau'n defnyddio rhifau. Beth am chwarae gemâu paru neu snap neu dynnu llun cardiau a cheisio cyrraedd mor agos at 21 â phosib heb fynd yn 'byst'.

**Blociau adeiladu:** siaradwch am faint a siâp y blociau a gwneud patrymau.

**Mi wela i gyda'n llygad bach i:** 'mi wela i rif / siâp..."

**Gemâu bwrdd:** er enghraifft Connect 4, Fyny'r Ysgol Lawr y Neidr, Monopoli neu unrhyw gêm sy'n golygu taflu dis i symud o gwmpas y bwrdd.

### Hobis:

**Chwaraeon:** siaradwch am y rhifau yn hoff chwaraeon eich plentyn. Faint o goliau neu bwyntiau sydd ei angen i ennill neu gael dyrchafiad? Siaradwch am amser, pellter, siapiau ar y cae, ayyb.

**Dawnsio:** cyfrwch y curiadau yn y miwsig a siarad am siapiau, patrymau a chymesuredd mewn dawnsio.

**Teledu:** chwiliwch am rifau mewn rhaglenni teledu poblogaidd. Siaradwch am sut y mae pobl yn mesur cynhwysion ar raglenni coginio. Adiwch y sgoriau ar raglenni dawnsio.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Tynnu sylw at fathemateg yn y byd go iawn

## Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Pecyn Mathemateg Teulu

## Ar gyfer plant hŷn

Ar wahân i'r ysgol, mae oedolion yn defnyddio mathemateg yn aml. Gall siarad am hyn helpu plant hŷn i weld gwerth dysgu mathemateg. Dyma rai enghreifftiau.

### Gyrfaoedd

**Pob swydd:** mae angen sgiliau mathemateg pob dydd ar gyfer pethau fel cyrraedd ar amser, deall slipiau cyflog, amserlenni gwaith a chyllidebau.

**Gofal iechyd:** mae angen mathemateg i weithio allan meddyginiaeth, deall data cleifion a chymryd darlleniadau.

**Adeiladu:** mae angen sgiliau rhif i gymryd mesuriadau, deall graddfa a maint, ac i ddilyn cynlluniau.

**Dylunio (graffeg, ffasiwn, dylunio mewnol, ayyb):** mae defnyddio siapiau, adnabod patrymau, deall mesuriadau ac unedau, graddfa a chymesuredd, a dilyn cynlluniau i gyd yn rhan o waith dylunio.

### Arian a chyllid

**Cyllidebu:** mae deall eich incwm a'ch costau / treuliau, gwybod beth allwch ei fforddio, a gwneud dewisiadau am beth i'w wneud gyda'ch arian, yn bwysig i bawb.

**Credyd a chynilo arian:** mae sgiliau mathemateg yn ddefnyddiol i ddeall cyfraddau llog a thelerau ac amodau eraill ar gardiau credyd, benthyciadau a chyfrifon banc cynilo.

**Trethi:** mae angen sgiliau rhif ar bobl hunangyflogedig neu sy'n rhedeg busnes i lenwi ffurflenni treth, a hyd yn oed ar bobl sy'n gyflogedig i ddeall ba gyfradd dreth y dylent fod yn ei thalu.

### Prifysgol

**Astudio:** mae angen i fyfyrwyr ar bob cwrs ddefnyddio sgiliau rhif mewn rhyw ffordd – i wneud cyfrifiadau, deall ymchwil ac ystadegau, gwneud astudiaethau a dadansoddi'r canlyniadau, neu ddim ond i reoli amser, cyfrif geiriau a marcio cynlluniau ar gyfer asesiadau.

**Cyllidebu:** bydd angen i fyfyrwyr sy'n byw oddi cartref ddeall eu hincwm a'u taliadau allan er mwyn rheoli benthyciadau, grantiau, rhent, ffioedd cwrs a chostau byw.

**Gyda beth y defnyddiwch fathemateg yn eich gwaith neu fywyd pob dydd?**
**Beth y mae eich plentyn eisiau ei wneud ar ôl gadael ysgol?**
**Pa sgiliau rhif fydd ei angen i wneud hynny?**

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Siarad yn gadarnhaol am fathemateg

## Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Pecyn Mathemateg Teulu

Mae'n bwysig bod yn gadarnhaol am fathemateg o gwmpas plant. Mae'r ffordd y siaradwn am fathemateg yn gwneud gwahaniaeth mawr.

Gallai dweud "allan i ddim gwneud maths" neu "roedd yn gas gen i faths yn yr ysgol" wneud i'ch plentyn ddechrau meddwl felly hefyd. Ac weithiau gallwn ddweud pethau sy'n rhoi'r syniad anghywir heb sylweddoli.

Dyma rai pethau y mae pobl weithiau'n ei ddweud, a beth allwn ni drïo ei ddweud:

<table>
<tr><th>Beth y mae pobl weithiau'n ei ddweud</th><th>Beth y mae plant yn ei glywed o hyn</th><th>Beth allwn ni drïo ei ddweud</th></tr>
<tr><td>"Alla i ddim gwneud maths a dw i'n iawn hebddo fo"<br>NEU<br>"Doeddwn i erioed yn dda mewn maths yn yr ysgol chwaith."</td><td>"Dydy maths ddim yn bwysig a ti'n gallu gwneud hebddo fo. Dim ond pwnc ysgol ydy o a fydd o ddim yn ddefnyddiol mewn bywyd."<br><br>Gall credu'r pethau hyn wneud i blant beidio â thrïo gyda mathemateg.</td><td rowspan="2">"Roedd maths yn anodd i mi hefyd ond os daliwn ati gallwn ddod i ddeall."<br><br>"Gallwn i gyd fod yn dda mewn maths os daliwn ati."<br><br>"Mae'n ocê meddwl bod maths yn anodd – nid yw'n golygu nad wyt ti'n dda mewn maths. Beth am ddal ati."</td></tr>
<tr><td>"Mae'n iawn, ti'n fwy o berson creadigol na pherson maths."</td><td>"Dim ond rhai pobl sy'n dda am faths a ti ddim y math yna o berson, felly does dim pwynt trïo dod yn well mewn maths."<br><br>Gall hyn wneud i blant feddwl bod eu galluoedd yn rhai penodol ac na allwch ddysgu sgiliau. Nid yw'n eu hannog i ddal ati.</td></tr>
</table>

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Siarad yn gadarnhaol am fathemateg

## Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Pecyn Mathemateg Teulu

<table>
<tr><th>Beth y mae pobl weithiau’n ei ddweud</th><th>Beth y mae plant yn ei glywed o hyn</th><th>Beth allwn ni drïo ei ddweud</th></tr>
<tr><td>“Mae hyn yn hawdd, dylet ti fod yn cael hwn yn iawn.”</td><td>“Os ti’n gweld hwn yn anodd, rhaid dy fod yn dwp”<br><br>Gall rhoi pwysau ar blant i gael pethau’n iawn y tro cyntaf wneud iddynt boeni am fàths a chael eu dychryn ganddo. Mae’n beth da i blant wybod nad ydy gwneud camgymeriad yn beth drwg. Gall camgymeriadau ein helpu i ddysgu.</td><td rowspan="2">“Dw i’n meddwl ein bod wedi cael y rhan yma o’r broblem yn iawn, beth am roi cynnig arall ar yr ateb.”<br><br>“Roedd hwnna’n un anodd, da iawn ti am ddal ati.”</td></tr>
<tr><td>“Da iawn ti am gael hwnna’n gywir. Ti mor glyfar.”</td><td>“Mae pobl glyfar bob amser yn cael pethau’n iawn. Os nad wyt ti’n cael pethau’n iawn, ti ddim yn glyfar.”<br><br>Gall canmol plentyn am fod yn glyfar neu am gael talent wneud iddynt feddwl bod dysgu maths yn dod o allu naturiol yn lle gwaith caled. Os yw cael rhywbeth yn iawn yn eich gwneud yn glyfar, gall plant ddechrau meddwl bod gwneud camgymeriad yn golygu nad ydyn nhw’n glyfar – a stopio trïo rhag ofn iddynt ei gael yn anghywir.</td></tr>
</table>

Beth bynnag yw ein teimladau ein hunain am fathemateg, gall bod yn gadarnhaol amdano wneud gwahaniaeth mawr i gynnydd plant. Sut bynnag y teimlwch am fathemateg eich hun, gallwch dal helpu eich plant i deimlo’n gadarnhaol. Pa bynnag sgiliau rhif sydd gennych, gallwch dal gefnogi eich plentyn gyda mathemateg.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru’r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Gwella eich sgiliau a'ch hyder

## Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Pecyn Mathemateg Teulu

Ond mae rhai pobl yn teimlo'n fwy cyffyrddus am hynny drwy weithio ar eu hyder eu hunain gyda rhifau. Ac nid oes raid i chi fynd yn ôl i'r dosbarth i wneud hynny!

Mae'r Her Rhifedd Genedlaethol yn adnodd dysgu ar-lein i oedolion sydd heb lawer o hyder yn eu sgiliau mathemateg: www.nationalnumeracy.org.uk/challenge

Gallwch gofrestru am ddim: y cwbl sydd ei angen yw cyfeiriad e-bost a chyfrinair. Ar ôl cofrestru, gallwch wneud gwiriad sydyn o'ch sgiliau. Mae hyn fel arfer yn cymryd tua 10 munud.

**Nid prawf yw'r gwiriad sydyn – dim ond i helpu'r Her i ddod o hyd i'r adnoddau a'r cymorth gorau i chi. Yn y gwiriad sydyn:**

- Mae'r cwestiynau'n ymwneud â mathemateg pob dydd – sgiliau bywyd go iawn
- Nid oes terfyn amser ar y cwestiynau na'r gwiriad sydyn
- Mae popeth yn gyfrinachol felly ni fydd gennych y pwysau o bobl eraill yn gweld eich atebion
- Byddwch ond yn cael digon o gwestiynau i ddod o hyd i'r cymorth sydd ei angen arnoch – os cewch drafferth ateb, ni fydd y cwestiynau'n mynd yn anoddach
- Gallwch gadw eich cynnydd wrth fynd, nid oes raid i chi orffen y cwbl ar unwaith.

**Ar ôl gorffen y gwiriad sydyn, byddwch yn gweld adnoddau ar-lein. Mae'r adnoddau hyn:**

- Yn seiliedig ar y cwestiynau a gawsoch yn anghywir – fel y gallwch ganolbwyntio ar beth sydd angen i chi wella arno
- Ar y lefel y byddwch yn gweithio tuag ato, felly byddant yn heriol ond nid yn rhy galed i chi
- Yn cynnig digon o ddewis: mae pawb yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd felly os nad ydych yn hoffi'r un cyntaf, gallwch ddewis un arall

Ar ôl defnyddio rhai o'r adnoddau a theimlo eich bod yn barod, gallwch wneud y gwiriad sydyn eto. Bydd hyn yn rhoi mwy o adnoddau fel y gallwch weld ydych chi wedi gwella.

**Cofiwch** – nid oes angen i chi fod yn athrylith mewn mathemateg i helpu eich plant! Ond gall dod yn fwy hyderus gyda rhifau ond fod yn beth da. Hyd yn oed os ydych yn ei chael yn anodd, rydych yn dangos i'ch plentyn y gall pawb ddysgu a gwella mewn mathemateg – a bod cael trafferth yn rhan normal o'r broses ddysgu, i oedolion a phlant.



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669